Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# UCD Cyfnod Allweddol 3 a 4 Bro Morgannwg
# Fferm Ymddiriedolaeth Amelia
# Whitton Rosser
# Five Mile Lane
# Y Barri
# CF62 3AS

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2012

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 18/01/2013**

## Cyd-destun

Mae Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) Bro Morgannwg yn darparu ar gyfer hyd at 56 o ddisgyblion. Mae’r Uned ar ddau safle. Mae un safle yn y Bont-faen, lle mae 36 o leoedd rhan-amser i ddisgyblion cyfnod allweddol 4. Mae’r Uned arall ar safle Ymddiriedolaeth Amelia, sy’n ddarparwr hyfforddiant, mewn cefn gwlad agored, sy’n rhan o fferm weithio y mae aelodau’r cyhoedd ac oedolion ifanc ag anableddau dysgu’n ymweld â hi. Mae 20 o leoedd amser llawn ar y safle hwn i ddisgyblion cyfnod allweddol 3.

Mae’r UCD yn gweithio mewn partneriaeth hefyd â Porth Ymgysylltu [Gateway to Engagement] (G2E), sy’n cael ei redeg gan wasanaeth ieuenctid awdurdod lleol Bro Morgannwg. Mae hyn yn ychwanegu at y rhaglen ran-amser sy’n cael ei chynnig i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4, ac mae’n eu galluogi i gael y 25 awr o ddarpariaeth a argymhellir. Gall y disgyblion hyn fynychu’r fferm yn Ymddiriedolaeth Amelia yn rhan-amser hefyd.

Mae’r ddarpariaeth cyfnod allweddol 4 yn cynnig cymwysterau TGAU/Lefel Mynediad yn ogystal â phrofiad gwaith a lleoliadau coleg. Mae’r disgyblion hefyd yn astudio amrywiaeth o gymwysterau Rhwydwaith y Coleg Agored.

Mae athro â gofal ar bob safle, a chan bennaeth y mae’r rheolaeth gyffredinol dros y ddarpariaeth. Cychwynnodd y pennaeth presennol yn ei swydd ym Mai 2010.

Mae anghenion amrywiol iawn gan y disgyblion sy’n mynychu’r UCD. Aseswyd bod gan bob un ohonynt anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad, ac mae anghenion dysgu ychwanegol gan rai. Maent wedi bod yn aflwyddiannus yn eu hysgolion. Yn aml, nid ydynt wedi gallu rheoli’u hymddygiad, ac maent yn ei chael yn anodd uniaethu ag eraill. Mae medrau sylfaenol gwael gan lawer o’r disgyblion, ac nid ydynt yn arfer mynychu’r ysgol yn rheolaidd. Mae ganddynt farn isel ohonynt eu hunain, ac agweddau negyddol at ddysgu. Adeg yr arolygiad, roedd wyth o ddisgyblion â datganiadau o anghenion addysgol arbennig oherwydd eu hanawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad.

Mae asiantaethau allanol fel y Gwasanaethau Cymdeithasol a’r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn ymwneud llawer â’r UCD. Mae Barnardo’s yn darparu gwasanaeth cwnsela i’r disgyblion ar y ddau safle. Nid yw’n briodol cymharu’r safonau mae’r disgyblion yn eu cyflawni yn yr UCD â chyfartaleddau cenedlaethol, nac i ddadansoddi tueddiadau grwpiau dros amser oherwydd natur ac amrywiaeth anghenion dysgu’r disgyblion.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Bernir bod perfformiad presennol UCD Bro Morgannwg yn dda oherwydd:

- bod safonau'r disgyblion mewn llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn gyson dda;
- bod y disgyblion yn ennill amrediad priodol o gymwysterau, ac mae bron pob un ohonynt yn symud ymlaen i addysg bellach neu hyfforddiant;
- bod ansawdd yr addysgu'n dda, ac yn rhagorol mewn ychydig o achosion;
- bod y staff yn diwallu anghenion unigol yn dda;
- bod yr Uned yn gweithio'n agos ag amrediad eang o wasanaethau arbenigol a phartneriaid i wella deilliannau ar gyfer y disgyblion; a
- bod yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn dda.

### Rhagolygon gwella

Er y perfformiad da hwn a'r llawer o welliannau a wnaed ers penodiad diweddar y pennaeth, bernir bod y rhagolygon gwella'n ddigonol oherwydd:

- bod yr awdurdod lleol a'r UCD heb wneud trefniadau hyblyg i ddarparu ar gyfer grŵp bychan o ddisgyblion cyfnod allweddol 4 sy'n dymuno mynychu'r UCD yn amser llawn. Mae hyn yn cael effaith negyddol ar les y disgyblion hyn, ac ar y cyfraddau presenoldeb cyffredinol yn yr UCD hefyd;
- bod yr UCD heb fod yn defnyddio data'n ddigon da i olrhain presenoldeb, ymddygiad a gwaharddiadau fel bod modd iddi gynllunio i wneud gwelliannau; a
- bod y toiledau ar y safle cyfnod allweddol 3 heb fod yn ddiogel, ac nid aethpwyd i'r afael â hyn ar ôl yr arolygiad diweddaf; ni sonnir am hyn yn yr hunanarfarniad ychwaith.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i gynnal y cynnig o’r 25 awr o ddarpariaeth a argymhellir, ar gyfer y grŵp bychan o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 pan na fyddant yn ymateb i’r rhan alwedigaethol o’r rhaglen;

A2 sicrhau bod cyfleusterau toiled digonol a diogel at ddefnydd y disgyblion yn unig ar safle’r fferm;

A3 gwneud gwell defnydd o ddata i olrhain presenoldeb, ymddygiad a gwaharddiadau’n effeithiol, arfarnu cynnydd a llywio strategaethau ar gyfer gwella; a

A4 mynd ati’n systematig i rannu gwybodaeth gyda sefydliadau partner.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd Estyn yn ailymweld â’r UCD ymhen rhyw flwyddyn.  Bydd yr ymweliad yn canolbwyntio ar y cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion yn yr adroddiad gwreiddiol, a bydd yn arwain at adroddiad byr a gaiff ei anfon i’r UCD.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion sy'n mynychu'r UCD yn cyflawni safonau da mewn perthynas â'u hanghenion a'u galluoedd dysgu. Maent yn gwella'u hymddygiad dros gyfnod. Maent yn dysgu i reoli'u dicter a mynegi'u teimladau'n fwy priodol. Maent yn datblygu'r medrau cyfathrebu sydd eu hangen arnynt i uniaethu ac i weithio'n dda â phobl eraill. Maent yn dysgu gwrando ar eraill, dilyn cyfarwyddiadau ac aros eu tro. Yn y gwersi, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn canolbwyntio ar eu tasg. Maent yn dangos balchder yn eu gwaith ac yn cymryd gofal gyda'u cyflwyniad. Ar draws yr UCD, mae'r disgyblion yn defnyddio TGCh yn gymwys ar gyfer gwneud ymchwil, storio'u gwaith a dylunio cyflwyniadau cyffrous.

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn wrth wella'u medrau llythrennedd a rhifedd. Maent yn defnyddio'r medrau datblygol hyn yn effeithiol i ddarllen yn uchel yn hyderus, i ddrafftio ac ailddrafftio testunau a deall adio. Mae disgyblion yn cymryd cyfrifoldebau am eu dysgu, maent yn gwybod beth yw'r targedau maent yn gweithio tuag atynt, ac yn dysgu i weithio'n fwy annibynnol. Mae disgyblion hŷn yn dangos aeddfedrwydd mewn trafodaethau, yn defnyddio amrywiaeth eang o eirfa ac yn myfyrio ar faterion pwysig fel seiberfwlio a cham-drin ar-lein. Mae disgyblion yn dangos eu bod yn gallu cofio ymadroddion Cymraeg syml yn dda, ac maent yn defnyddio Cymraeg achlysurol yn ystod y gwersi.

Oherwydd y lefelau uchel o gymorth maent yn eu cael gan eu gweithwyr allweddol, mae pump o'r disgyblion wedi llwyddo i ymuno ag ysgolion prif ffrwd ar gyfer amrediad o wersi, gan gynnwys Cymraeg. Mae disgyblion a'u rhieni wrth eu bodd â'r cyflawniad sylweddol hwn.

Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau'u profiadau gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio mewn lle trin gwallt, adeiladu, y cyfryngau ac ar y fferm. Y llynedd, fe wnaeth ychydig dros 85% o'r disgyblion a adawodd yr UCD symud ymlaen i leoliadau coleg. Mae disgyblion yn ennill amrediad eang o gymwysterau priodol. Mae'r rhain yn cynnwys cymwysterau TGAU mewn Saesneg, mathemateg a pharatoi ar gyfer bywyd gweithio, dyfarniadau Lefel Mynediad a Medrau Hanfodol Cymru, a dyfarniadau Coleg y Rhwydwaith Agored fel medrau bywyd. Fodd bynnag, er eu bod yn mynychu'r safle UCD yn y Bont-faen yn rheolaidd ac yn ymgysylltu'n dda, nid yw ychydig dros 25% o'r disgyblion cyfnod allweddol 4 hyn yn mynychu'r rhan arall o'u rhaglen dan arweiniad G2E. Mae hyn yn cael effaith negyddol ar eu cynnydd.

**Lles: Digonol**

Mae dealltwriaeth dda gan y mwyafrif o'r disgyblion o sut i gadw'n iach, ac mae agwedd gadarnhaol gan lawer ohonynt tuag at ymarfer corff. Mae'r rhan fwyaf o'r bechgyn yn cyfranogi'n dda mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau ffitrwydd a chwaraeon. Fodd bynnag, mae llai o ferched yn manteisio ar y cyfleoedd hyn.

Mae mwyafrif y disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac maent yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu.  Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn deall beth sy'n rhaid iddynt ei wneud i wella'u dysgu a'u hymddygiad.  Maent yn elwa o gael targedau ymddygiad priodol sy'n eu hannog i fyfyrio ar eu gweithredoedd ac i gymryd cyfrifoldeb drostynt.  Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda tuag at ei gilydd, y staff ac ymwelwyr, ac maent yn ymgysylltu'n dda â'r gweithgareddau.  Oherwydd y cymorth da gan y staff yn yr UCD, mae'r disgyblion yn cael cipolygon gwerthfawr i'w teimladau a'u hymddygiad.  O ganlyniad, mae'r disgyblion yn dysgu i reoli'u hymddygiad dros gyfnod.  Mae cyfanswm nifer y diwrnodau a gollwyd gan ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd wedi lleihau'n sylweddol dros y tair blynedd diwethaf.  Mae'r disgyblion yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cymorth maent yn ei gael gan gwnselydd o Barnardo's, a'r cymorth gyda rheoli dicter maent yn ei gael gan aelod hyfforddedig o'r staff cymorth.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwella'u presenoldeb yn yr UCD o gymharu â'u hysgolion blaenorol.  Er y gwelliannau hyn, roedd presenoldeb cyfartalog yn ystod 2011-2012 yn rhy isel, ar ychydig islaw 69%.  Ar ychydig dros 58%, gan fechgyn ym Mlwyddyn 10 y mae'r presenoldeb isaf.  Mae lleiafrif o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn mynychu darpariaeth y Bont-faen am dridiau bob wythnos, ac nid ydynt yn mynychu'r ddarpariaeth oddi ar y safle.  Mae hyn yn cael effaith negyddol ar eu lles, ac ar lefel bresenoldeb gyffredinol yr UCD.

Mae cyfranogiad y disgyblion yn y gymuned leol yn cynyddu'u hunanhyder.  Maent yn gwneud defnydd da iawn o'r medrau y maent wedi'u dysgu yn yr UCD mewn cyd-destun ehangach.  Er enghraifft, maent yn dylunio taflenni hyrwyddo ar gyfer digwyddiadau lleol, yn llenwi bocsys ar gyfer elusen Nadolig ac yn codi arian ar gyfer Plant mewn Angen.

Mae mwyafrif y disgyblion yn cyfranogi'n frwd mewn gweithgareddau'n gysylltiedig â gwaith sy'n eu helpu i gynllunio'n effeithiol ar gyfer bywyd a gwaith y tu allan i'r ysgol.  Mae cyngor disgyblion gweithgar yn yr Uned.  Bydd y disgyblion yn trafod materion fel ailgylchu, llyfrau llyfrgell a chelfi ar gyfer yr UCD.  Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau ynglŷn â'r cwricwlwm a gwaith craidd yr UCD.

| **Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu:  Da**

Mae disgyblion yn elwa o gwricwlwm eang a chytbwys yn yr UCD a thu hwnt.  Mae'r cwricwlwm yn cael ei gynllunio'n dda ar draws y pynciau a'r meysydd dysgu.  Mae'r UCD wedi datblygu cysylltiadau helaeth gyda chyflogwyr lleol, ac mae'r rhain yn llwyddo i ddarparu amrywiaeth eang o gyfleoedd ar gyfer profiadau gwaith a llwybrau dysgu eraill.  Caiff profiadau dysgu eu haddasu'n dda i ddiwallu anghenion y disgyblion yn ôl eu hoed a'u gallu.

Mae'r UCD yn dechrau gwneud cynnydd da i gynorthwyo ailintegreiddio disgyblion unigol yn ôl yn yr ysgol.

Caiff pwyslais priodol ei roi gan yr UCD ar ddatblygu medrau. Er enghraifft, mae disgyblion yn cael cymorth wedi'i dargedu mewn ysgrifennu a darllen ym mhob pwnc. Mae'r defnydd o TGCh ar draws y cwricwlwm wedi'i ddatblygu'n arbennig o dda. Mae'r UCD yn llwyddo i ddatblygu defnydd y disgyblion o fedrau i'w paratoi ar gyfer gwaith, hyfforddiant a chyrsiau coleg. Fodd bynnag, nid yw'r UCD yn cynnig cyfleoedd addas bob amser i'r disgyblion ddatblygu medrau meddwl ym mhob un o'u meysydd dysgu.

Er nad yw'n ofyniad, mae'r UCD yn cydnabod ei bod yn arfer dda i ddatblygu medrau iaith Gymraeg, ac mae wedi dechrau cynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu a defnyddio'r Gymraeg. Nid yw hyn wedi'i ymgorffori'n llawn eto yn yr un o'r ddau gyfnod allweddol yn yr UCD.

Mae'r UCD yn annog disgyblion i feddwl am yr angen am gynaliadwyedd ac i barchu'u hamgylchedd. Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu'u dealltwriaeth o Gymru fel cenedl yng nghyd-destun y byd ehangach. Mae'r rhain yn cynnwys ymweliadau addysgol â mannau o ddiddordeb fel y 'Pwll Mawr' ('Big Pit') ac amgueddfa genedlaethol Cymru, Sain Ffagan.

### Addysgu: Da

Mae ansawdd yr addysgu'n dda, ac yn rhagorol mewn ychydig o achosion. Mae athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu yn disgwyl i ddisgyblion wneud eu gorau ac ymddwyn yn dda. Maent yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn eu hannog i fynd i'r afael â thasgau newydd a bod yn fwy annibynnol. Maent yn rheoli ymddygiad disgyblion yn fedrus, ac yn eu helpu i adnabod eu dicter a delio ag ef. O ganlyniad, mae disgyblion yn lleihau nifer yr achosion lle maent yn colli rheolaeth. Mae athrawon yn cynllunio'u gwersi'n ofalus i ddiwallu anghenion a galluoedd pob un o'r disgyblion. Maent yn ailadrodd dysgu blaenorol, yn gosod amcanion dysgu clir ac yn crynhoi beth mae'r disgyblion wedi'i ddysgu. Caiff amrywiaeth eang o weithgareddau ei darparu ganddynt i gadw diddordeb y disgyblion trwy gydol y gwersi. Yn aml, mae eu hadnoddau yn gwbl briodol ac yn arloesol i fod yn addas ar gyfer unigolion a'u helpu i ddeall cysyniadau anodd, fel ffracsiynau. Maent yn rhoi sylw da iawn i ddatblygu medrau llythrennedd y disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio TGCh yn dda iawn, gan gynnwys byrddau gwyn rhyngweithiol, i ennyn diddordeb y disgyblion a chefnogi'u dysgu annibynnol.

Mae athrawon yn defnyddio asesiadau cychwynnol ac asesiadau parhaus cynhwysfawr i olrhain cynnydd y disgyblion. Gweithiant gyda disgyblion i osod targedau ar gyfer gwella. Maent yn atgoffa disgyblion yn rheolaidd am y targedau hyn, ac yn rhoi adborth defnyddiol iddynt ar eu cynnydd tuag at gyrraedd y targedau. Fodd bynnag, mae'r marcio'n amrywio gormod ar draws y pynciau. Nid yw bob amser yn dangos i ddisgyblion sut i fynd ati i wella'u perfformiad.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol

Mae polisïau clir ar waith i hyrwyddo iechyd a lles disgyblion. Mae'r UCD yn gweithio'n dda gydag amrywiaeth eang o asiantaethau allanol. Mae nyrs yr ysgol yn arbennig o effeithiol o ran helpu i hybu addysg briodol yn ymwneud â rhyw a pherthnasoedd yn yr UCD. Mae hyn yn ychwanegol at raglen ABCh gynhwysfawr

sy'n cael ei chyflwyno gan yr athrawon. Mae gwasanaethau cwnsela effeithiol sydd wedi'u datblygu'n dda ar gael i ddisgyblion. Mae'r rhain yn eu helpu i weithio a myfyrio ar y materion anodd sydd wedi cael effaith negyddol ar eu hymddygiad. Ymhlith y materion hyn mae delio â dicter a gwella'r ffordd maent yn uniaethu ag eraill.

Mae'r UCD yn gweithio'n agos gyda Swyddog Cyswllt Cymunedol yr Heddlu, sy'n ymweld yn rheolaidd i drafod materion pwysig y gall y disgyblion eu hwynebu. Mae'r rhain yn cynnwys trais, cyffuriau, diogelwch personol a seiber-gamfanteisio.

Mae'r asesiadau risg unigol yn briodol. Ond nid yw'r wybodaeth werthfawr hon yn cael ei rhannu'n ffurfiol â phartneriaid bob amser.

Mae'r UCD yn mynd ati'n gadarnhaol i hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion. Mae gwasanaethau dyddiol ac amser tiwtorial ar ddiwedd y diwrnod ysgol yn rhoi cyfleoedd da i'r disgyblion fyfyrio. Mae'r ysgol yn elwa hefyd ar Ddiacon y fferm sy'n cynnal gweithredoedd o addoli ar y cyd yn rheolaidd.

Mae'r UCD yn llwyddo i fodloni ei gofynion statudol mewn perthynas ag anghenion dysgu ychwanegol y disgyblion. Mae'n defnyddio dull mapio darpariaeth yn effeithiol i sicrhau bod anghenion pob dysgwr yn cael eu diwallu.

Mae polisi priodol a gweithdrefnau sydd wedi'u datblygu'n dda gan yr UCD yn ymwneud â diogelu. Fodd bynnag, mae'r toiledau ar safle'r fferm yn cael eu rhannu gan y staff, disgyblion, gweithwyr y fferm ac aelodau'r cyhoedd. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd goruchwylio drwy'r dydd, ac mae'n destun pryder.

**Amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol wedi llwyddo i sefydlu ethos cadarnhaol sy'n cael ei rannu gan staff a disgyblion. Mae staff a disgyblion yn gwerthfawrogi ac yn gofalu am eu hadnoddau, eu hoffer a'r adeilad. Mae staff yn cynnig modelau rôl rhagorol i ddisgyblion, ac mae hyn yn annog parch a goddefgarwch o eraill. Mae dealltwriaeth dda iawn gan bob un o'r staff o anghenion unigol disgyblion.

Darperir adnoddau da ar gyfer adeiladau ac ystafelloedd dosbarth yr UCD. Mae yna amrywiaeth eang o arddangosfeydd deniadol ac addysgiadol. Mae'r adeiladau wedi'u dodrefnu a'u cynnal a'u cadw'n addas.

Caiff y disgyblion eu hannog i wneud defnydd llawn o leoliad unigryw y fferm a'r adnoddau ychwanegol mae'n eu darparu.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth a'r uwch aelodau staff eraill yn yr UCD yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i greu amgylchedd dysgu cadarnhaol lle mae'r disgyblion a'r staff yn teimlo eu

bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn darparu arweinyddiaeth effeithiol ac yn cyfleu disgwyliadau uchel ar gyfer staff a disgyblion. O ganlyniad, mae pob un o'r staff yn rhannu ymrwymiad cadarn i'r UCD ac yn ymdrechu i gyflawni deilliannau gwell ar gyfer y disgyblion.

Mae gan yr uwch dîm rheoli ddealltwriaeth gyffredin o flaenoriaethau'r UCD ar gyfer datblygu, ac maent yn cynnwys pob aelod o staff i weithio gyda'i gilydd i gyflawni'r blaenoriaethau hyn. Drwy'r gwaith tîm hwn, mae gwelliannau amlwg yn y cwricwlwm, yr adnoddau ac ansawdd addysgu a dysgu. Mae'r UCD yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, mae medrau darllen, ysgrifennu a rhifedd y disgyblion yn gwella'n sylweddol yn sgil ffocws da'r UCD ar ddatblygu medrau.

Mae strwythurau rheoli sydd wedi'u diffinio'n glir, ac mae pob un o'r staff yn deall eu rolau. Mae'r pennaeth a'r athrawon â gofal o gyfnodau allweddol 3 a 4 yn cyfarfod yn rheolaidd, ac mae hyn yn eu helpu i ddatrys materion o ddydd i ddydd, ac i adolygu cynnydd yn barhaus a chynllunio ar gyfer gwelliannau pellach. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn sicrhau bod gwybodaeth ddiweddar gan bawb.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn rhoi ystyriaeth dda i'r meysydd yng nghynllun gwella'r UCD, ac mae'n nodi anghenion hyfforddi unigol. Mae'r pennaeth yn arsylwi'r addysgu'n rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw arsylwadau mewn ystafelloedd dosbarth ac adolygiadau o berfformiad bob amser yn nodi targedau'n ddigon clir i helpu'r staff i wella'u harfer ymhellach. Yn gyffredinol, mae'r pwyllgor rheoli, gyda chymorth yr awdurdod lleol, yn cynnig arweinyddiaeth briodol i helpu gwella addysgu a dysgu yn yr UCD. Fodd bynnag, anffurfiol yw'r trefniadau ar gyfer ailintegreiddio'r disgyblion i ysgolion prif ffrwd. O ganlyniad, nid yw pob un o'r penaethiaid wedi ymrwymo i'r nod o ailintegreiddio, ac mae hyn yn rhwystro gallu'r UCD i gynorthwyo'r disgyblion i fynd yn ôl i addysg y brif ffrwd.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae'r pwyllgor rheoli wedi cryfhau ei strwythur i gynnwys is-grwpiau ar gyfer materion y cwricwlwm ac ymddygiad a phresenoldeb. O ganlyniad, mae'r aelodau'n datblygu dealltwriaeth well o berfformiad yr UCD ac effaith datblygiadau newydd. Hefyd, mae gwell ffocws ar ddiogelu. Nid yw'r pennaeth uwchradd yn mynychu cyfarfodydd y pwyllgor rheoli yn ddigon rheolaidd.

Nid yw adroddiadau'r pennaeth i'r pwyllgor rheoli bob amser yn cynnwys digon o wybodaeth ddiweddar i'w alluogi i graffu ar berfformiad yn effeithiol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae dealltwriaeth dda gan yr uwch reolwyr o gryfderau'r UCD a'r meysydd i'w datblygu. Mae ethos o welliant parhaus yn yr Uned, ac mae'r rheolwyr a'r staff yn fyfyriol ac yn awyddus i gyflawni'r deilliannau gorau posibl ar gyfer y disgyblion. Fodd bynnag, mae'r prosesau hunanarfarnu'n newydd, ac nid ydynt yn ddigon rheolaidd na digon dadansoddol eto. Dim ond rhan gyfyngedig fu gan y pwyllgor rheoli wrth lunio'r adroddiad hunanarfarnu.

Mae'r UCD yn gwella'r amrediad data mae'n ei gadw, ac erbyn hyn mae ganddi system electronig i olrhain cyflawniadau disgyblion unigol. Mae'r rheolwyr a'r staff yn

defnyddio'r system hon yn dda i arfarnu effeithiolrwydd ymyriadau wedi'u targedu ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, nid yw'r system hon yn cael ei defnyddio'n ddigon da eto i gasglu a dadansoddi data mewn perthynas ag ymddygiad a phresenoldeb.

Mae Cynllun Gwella'r UCD o ansawdd da ac yn nodi nifer hydrin o flaenoriaethau priodol ar gyfer gwella. Roedd yr UCD a'r awdurdod lleol yn araf yn mynd i'r afael â'r argymhellion a'r diffygion a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol. Maent wedi gwneud cryn gynnydd ers penodi'r pennaeth presennol yn 2010, fodd bynnag. Yn benodol, mae'r UCD wedi mynd ati'n gyflym i sicrhau bod y ddarpariaeth newydd ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 4 ar safle'r Bont-faen o ansawdd da.

Mae'r UCD yn datblygu rhwydweithiau effeithiol gydag ysgolion lleol ac UCDau eraill i rannu arfer a gwella perfformiad. Mae'r pennaeth yn mynychu'r fforwm penaethiaid uwchradd yn rheolaidd.

Mae'r awdurdod lleol yn darparu cymorth da a her i'r UCD, yn enwedig ar gyfer datblygiadau'r cwricwlwm. Mae'r UCD yn rhan o broses Adolygu a Datblygu'r awdurdod lleol, a thrwy weithio gyda'r arweinydd systemau, mae'n helpu cadarnhau blaenoriaethau ar gyfer gwella.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r UCD yn gweithio'n dda gydag ystod eang o asiantaethau allanol ac mae wedi sefydlu cytundebau lefel gwasanaeth priodol. Mae'r cysylltiadau gyda Gyrfa Cymru yn effeithiol iawn o ran cynorthwyo pan fydd y disgyblion yn trosglwyddo i addysg barhaus a byd gwaith. Fodd bynnag, nid yw'r cyrsiau sy'n cael eu cynnig gan rai darparwyr dysgu yn cael eu monitro'n llawn bob amser ar gyfer eu hansawdd a'u haddasrwydd.

Mae cyflwyno dau weithiwr allweddol yn ddiweddar i gynorthwyo gydag ailintegreiddio i ysgolion prif ffrwd wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd a lefel y cyfathrebu rhwng yr ysgolion. Mae'r gwaith hwn yn helpu gwella sefydlogrwydd lleoliadau disgyblion, ac yn sicrhau cynnal eu lles.

Mae cyfathrebu da rhwng rhieni/gofalwyr a'r ysgol. Anffurfiol yw'r cyfathrebu rhwng darparwyr lleoliadau gwaith a darparwyr hyfforddiant. Fodd bynnag, mae angen ffurfioli'r cyfathrebu hwn er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n effeithlon.

Erbyn hyn mae cysylltiadau clir rhwng staff yr ysgol ac ysgolion prif ffrwd, UCDau eraill a'r ysgol arbennig yn yr ardal er mwyn rhannu gwybodaeth a helpu cynorthwyo cyflwyno a safoni gwaith. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r cyfle i'r disgyblion gael amrywiaeth ehangach o gyfleoedd am nad oes gan yr UCD unrhyw gysylltiadau ffurfiol â'r Rhwydwaith 14-19 lleol.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

At ei gilydd, mae'r UCD yn rheoli'i hadnoddau yn dda, ac mae'n sefydlu partneriaethau effeithiol i gyflawni deilliannau cadarnhaol ar gyfer y disgyblion.
O ganlyniad, mae'n cynnig gwerth da am arian.

Mae staff addysgu a staff cymorth yn yr UCD yn cael eu defnyddio'n dda ar draws y ddau safle er mwyn gwneud y defnydd gorau o'u medrau a'u harbenigedd. O ganlyniad, mae'r UCD yn darparu cwricwlwm eang a chymorth effeithiol i ddisgyblion unigol. Mae'n gwneud defnydd da o amser cynllunio, paratoi ac asesu'r athrawon. Fodd bynnag, nid oes digon o amser heb fod yn addysgu yn cael ei ddarparu i gynorthwyo'r athro â gofal am gyfnod allweddol 4 i ymgymryd yn llawn â'r rôl hon.

Mae'r staff yn cael amrywiaeth eang o gyfleoedd hyfforddi sy'n cysylltu'n dda â blaenoriaethau'r ysgol a'u hanghenion datblygu eu hunain. Mae'r hyfforddiant hwn yn cael effaith gadarnhaol ar arfer yn yr ystafell ddosbarth ac ar gynnydd y disgyblion.

Mae adnoddau dysgu o ansawdd da yn cael eu darparu i'r disgyblion, gan gynnwys gliniaduron unigol. Mae'r ffaith fod yr UCD yn cael defnyddio cyfleusterau'r fferm yn ehangu'r cwricwlwm drwy eu defnydd o'r swît gerddoriaeth, y neuadd chwaraeon a'r gweithdai crochenwaith a gwaith coed.

Mae cyllideb yr ysgol yn cael ei datblygu a'i rheoli gan yr awdurdod lleol. Gofynna'r pennaeth am gyllid ychwanegol pan fydd ei angen, trwy gyfarfodydd rheolaidd gyda'r Pennaeth Cymorth Disgyblion. Mae gwariant yn canolbwyntio'n dda ar y blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r UCD. Fodd bynnag, nid yw'r UCD, ei phwyllgor rheoli a'r awdurdod lleol yn cynllunio'n ddigon da i sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion pob un o'r disgyblion yn briodol. Mae'r model darpariaeth cyffredinol ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn seiliedig ar bresenoldeb rhan-amser yn yr UCD, a rhaglen o gyfleoedd galwedigaethol. O ganlyniad, nid yw'r UCD yn gallu darparu addysg amser llawn ar gyfer lleiafrif o ddisgyblion nad ydynt yn manteisio ar y cyfleoedd hyn.

# Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiaduron rhieni**

Roedd nifer yr ymatebion a ddaeth i law yn rhy isel i roi barn gynrychioliadol. Fodd bynnag, cafodd y rhain eu hystyried yn ystod yr arolygiad.

**Ymatebion i holiaduron dysgwyr**

Fe wnaeth 31 o'r 38 o ddisgyblion ymateb i'r holiadur, ac ar y cyfan maent yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'r UCD ac yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda. Mae bron pob un ohonynt yn teimlo bod ganddynt rywun i siarad â nhw os ydynt yn pryderu. Maent yn cytuno eu bod yn teimlo'n ddiogel a bod yr UCD yn eu haddysgu i wella'u hiechyd. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn teimlo bod yr UCD yn delio'n dda â bwlio; maent yn teimlo hefyd fod pobl yn gwrando arnynt, a'u bod yn cael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb. Maent yn credu eu bod yn cael eu hannog i barchu cefndiroedd pobl eraill a'u bod yn cael parch am eu cefndir hwythau. Maent yn teimlo bod ganddynt ddigon o lyfrau ac offer. Fodd bynnag, roedd dros hanner y disgyblion a ymatebodd yn anghytuno bod y disgyblion yn ymddwyn yn dda.

# Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Claire Yardley | Arolygydd Cofnodol |
| Alec Clark | Arolygydd Tîm |
| Jassa Scott | Arolygydd Tîm |
| Bernard Harrington | Arolygydd Lleyg |
| Teresa Foster Evans | Arolygydd Cymheiriaid |
| John Wagstaff | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd pump oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd chwech oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr o dermau ADY

**AAY**:  adnodd addysgu ychwanegol

**ADDLl**:  anawsterau dysgu dwys a lluosog

**ADCG**:  anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd

**ADP**:  anawsterau dysgu penodol, gan gynnwys dyslecsia

**ADY**:  anghenion dysgu ychwanegol

**ASA**:  Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig, mae’n cynnwys Syndrom Asperger

**AYECH, AECY neu ACEY**:  Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol

**CY**:  Cod Ymarfer

**HI**:  nam ar y clyw

**MSI**:  nam amlsynnwyr

**VI**:  nam ar y golwg